# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ**

**Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 16 Hydref 2018

Amser: 08.30 - 08.55

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Neil Hamilton AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Roedd holl aelodau'r pwyllgor yn bresennol ar gyfer y cyfarfod cychwynnol am 8.30am. Pan wnaeth y Pwyllgor Busnes ailymgynnull am 1pm, anfonodd Rhun ap Iorwerth a Neil Hamilton eu hymddiheuriadau. Roedd Dai Lloyd yn bresennol fel dirprwy ar gyfer Rhun ap Iorwerth.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

**Dydd Mawrth**

- Ni fydd Cyfnod Pleidleisio.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 7 Tachwedd 2018 –**

- Cydraddoldeb a Brexit – Canfyddiadau ar y cyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (60 munud)
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)~~ – *gohiriwyd tan 14 Tachwedd*

**Dydd Mercher 14 Tachwedd 2018 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i baratoadau ar gyfer disodli cyllid yr UE yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud) – *gohiriwyd o 7 Tachwedd*

## 4 Pwyllgorau

### 4.1 Dyrannu llefydd ar bwyllgorau a chadeiryddion rhwng grwpiau

Trafododd Rheolwyr Busnes dyrannu cadeiryddion pwyllgorau, gan gynnwys cynnig posibl i ailddyrannu cadeiryddiaeth y Pwyllgor Deisebau i'r Ceidwadwyr Cymreig ynghyd â newid yn y drefn y gelwir ar Arweinyddion a Llefarwyr yn ystod cwestiynau fel eu bod bob amser yn cael eu galw yn nhrefn maint y grŵp.

Gwrthwynebodd Neil Hamilton y cynnig ar y sail ei fod yn credu ei y byddai adlewyrchiad teg o faint y grŵp yn golygu y byddai gan UKIP un gadeiryddiaeth pwyllgor.

Nododd y Llywydd gan mai hi sy'n gyfrifol am drefn y cwestiynau, mae angen amser arni i ystyried y cynnig ac felly gofynnodd i'r Pwyllgor Busnes ailymgynnull am 1pm.

Bydd Darren Millar a Rhun ap Iorwerth yn trafod sut y dylid llenwi'r lle gwag ar y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y tu allan i'r pwyllgor.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid adolygu'r Rheolau Sefydlog penodol sy'n gysylltiedig â'r mater hwn erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.

## Gwnaeth Pwyllgor Busnes ailymgynnull am 1pm i drafod dyraniad cadeiryddion pwyllgorau a threfn cwestiynau'r gwrthbleidiau.

Gwnaeth Pwyllgor Busnes ailymgynnull am 1pm. Dywedodd y Llywydd fod angen mwy o amser arni i drafod goblygiadau'r cynnig a wnaed ac y bydd yn gohirio pob penderfyniad sy'n ymwneud â dyrannu cadeiryddion pwyllgorau tan y cyfarfod wythnos nesaf. Anogodd y pwyllgor i barhau i drafod gyda'r bwriad o benderfynu ar gynnig a allai gael mwy o gonsensws na'r cynnig y cytunwyd arno gan y mwyafrif y bore yma. Er ei bod hi'n cydnabod mai disgresiwn y Llywydd yw mater trefn galw ar Arweinwyr a Llefarwydd, dywedodd y Llywydd y byddai'n cael ei harwain gan farn mwyafrif y Pwyllgor Busnes o ran y drefn y mae'n galw ar bobl yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog a chwestiynau i'r Gweinidogion.